**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr

**Cynhelir y cyfarfod o bell drwy *Microsoft Teams***

**Dydd Llun, 21 Medi 2020 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) fu'n llywyddu

**Y Cynghorwyr**

| | | |
|---|---|---|
| M C Child | J P Curtice | P R Hood-Williams |
| L James | | |

**Aelodau o'r Grŵp Llywio**

| | | |
|---|---|---|
| R Button | J France | S Heard |
| S Hill | G Howe | P Jenkins |
| B Parry | P Thornton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Chris Lindley | Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr |
| Mike Scott | Swyddog AoHNE Gŵyr |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Rachel Willis | Prif Gynllunydd, Polisi Cynllunio a'r Amgylchedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): A H Stevens
Aelodau o'r Grŵp Llywio(wyr): J Chambers, H Osborn a/ac D P Tucker

---

## 49 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 50 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod blynyddol Partneriaeth AoHNE Gŵyr a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2020 fel cofnod cywir.

## 51 Cyfoeth Naturiol Cymru Cyllid Grant.

Dywedodd Mike Scott, Swyddog AoHNE Gŵyr fod yr Adroddiad Blynyddol i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) am ei gefnogaeth grant ar gyfer AoHNE Gŵyr wedi'i gyflwyno ar 4 Medi 2020, fel rhan o'r broses adrodd flynyddol. Dosbarthwyd copi o'r adroddiad i aelodau'r Grŵp Llywio.

Ychwanegwyd bod y grant wedi'i ddarparu dan Raglen Partneriaeth AoHNE Gŵyr 2018-21, a oedd yn cynnig 75% o gyllid (hyd at £216,671) dros dair blynedd. Ei nod oedd cefnogi rhoi Cynllun Rheoli AoHNE Gŵyr ar waith.

Yn 2019/20, cyfanswm y grant a dalwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru oedd £72,223, gyda'r prosiect yn cael ei rannu rhwng y Timau AoHNE, Hawliau Tramwy, Timau Cadwraeth Natur a Pholisi Cynllunio.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 52 Ymgynghoriad Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft.

Adroddodd Swyddog AoHNE Gŵyr fod Cyngor Abertawe, fel rhan o'i waith i ddatblygu Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) cyfredol, yn cynnal ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu a oedd yn ymwneud â'r dogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft canlynol:

- Canllaw Dylunio AoHNE Gŵyr Diwygiedig
- Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd ar Safleoedd Datblygu
- Datblygu a Bioamrywiaeth

Roedd y dogfennau'n rhoi arweiniad ynghylch sut y dylid defnyddio polisïau perthnasol Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Abertawe i helpu i benderfynu ar geisiadau cynllunio a gyflwynir i'r awdurdod yn y dyfodol.

Roedd y cyngor am gael barn y cyhoedd ynghylch a oedd dogfennau CCA drafft yn cynnwys amrywiaeth priodol o faterion cynllunio ac a oedd yn ddigon eglur i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau, ymgeiswyr a'r holl bartïon eraill o ddiddordeb.

Roedd yr ymgynghoriad bellach yn fyw a bydd yn agored tan 5pm ddydd Gwener, 16 Hydref 2020.

Ychwanegwyd y byddai tri chyflwyniad byr yn amlinellu'r CCA drafft yn cael eu rhoi gan staff Cynllunio Strategol ar 23 Medi 2020 ac y byddai aelodau'r Grŵp Llywio yn derbyn e-bost a oedd yn cynnwys dolen er mwyn cymryd rhan.

Roedd Ruth Henderson, Uwch Swyddog Cynllunio, hefyd yn bresennol yn y cyfarfod a chyflwynodd y dogfennau Canllawiau Arweiniad Atodol Drafft i'r Grŵp Llywio ac atebodd gwestiynau a ofynnwyd.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 53 Diweddariad Porth Einon ac Horton.

Rhoddodd Chris Lindley, Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr, adroddiad diweddaru ar astudiaeth ddichonoldeb Porth Einon a Horton.

Darparodd gefndir i'r gwaith a wnaed eisoes a chyflwynwyd y materion a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer gwaith datblygu yn Ffigur 1 yr adroddiad.

Ychwanegwyd bod Partneriaeth AoHNE Gŵyr a Chyngor Abertawe yn datblygu argymhellion yr adroddiad wrth fynd ymlaen. Roedd y Panel Cronfa Datblygu Cynaliadwy wedi dyfarnu grant a oedd yn galluogi Cyngor Abertawe i gomisiynu cynllun o welliannau manwl a oedd wedi'u prisio i gyfleusterau ymwelwyr ac isadeiledd cyhoeddus yn y tymor byr. Byddai'r comisiwn hefyd yn datblygu'r argymhelliad buddsoddi cyfalaf tymor canolig ar gyfer adeilad traeth/canolfan gymunedol newydd.

Trafododd y Grŵp Llywio'r canlynol: -

- Ffynonellau cyfalaf/arian grant sydd ar gael i wneud y gwaith;
- Amserlen yr astudiaeth ragarweiniol;
- Amserlen gyffredinol ar gyfer cwblhau'r prosiect cyfan y gobeithiwyd y byddai'n cael ei gwblhau mewn 5 mlynedd;
- Sut y byddai manylion y prosiect yn gliriach ym mis Mawrth 2021;
- Delio â'r arwyddion a phroblemau'r llwybr estyll yn y tymor byr;
- Sicrhau bod swyddogaeth unrhyw adeilad newydd yn cael ei sefydlu oherwydd y bydd yn llywio'r dyluniad yn y pen draw;
- Bydd angen i adeilad yn y lleoliad sensitif hwn fod o ddyluniad sensitif ac o safon uchel.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 54 Cronfa Datblygu Cynaliadwy.

Cyflwynodd Swyddog AoHNE Gŵyr adroddiad cyllidebol cryno o Banel y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC).

Amlinellwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cyllideb y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar gyfer 2020/21 fel £100,000.

Ar hyn o bryd cymeradwywyd 12 prosiect gyda chyllid CDC ar gyfer 2020/21, gydag 1 cais yn cael ei asesu ar hyn o bryd a rhagwelwyd 3 chais pellach yn fuan.

Caiff prosiectau eraill eu cyflwyno yn ystod 2020/21 i ddyrannu'r arian yn llawn. Roedd ffigur y cronfeydd sydd wedi'u neilltuo'n cynnwys ffi reoli DASA sef £10,000 (10%).

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr arian sydd ar gael | £100,000 |
| Cronfeydd sydd wedi eu neilltuo | £74,420 |
| Cronfeydd sydd heb eu neilltuo | £25,580 |
| Ceisiadau dan ystyriaeth | £3,000 |

Nid oedd y gyllideb ar gyfer 2021/22 wedi'i chadarnhau, ond disgwylir iddi fod gwerth £55,000. Roedd dau brosiect wedi'u cymeradwyo, gyda £25,500 wedi'i neilltuo a £29,500 heb ei neilltuo ar hyn o bryd.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

**55 Materion Cymdeithas Gwyr.**

Oherwydd bod Cynrychiolydd Cymdeithas Gŵyr yn colli cysylltiad â'r cyfarfod, cytunwyd y dylid gohirio'r eitem
tan y cyfarfod nesaf a drefnwyd.

**Penderfynwyd** gohirio'r eitem tan y cyfarfod nesaf a drefnwyd.

**56 Parc Gwledig Dyffryn Clun.**

Darparodd Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr adroddiad diweddaru llafar ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â Pharc Gwledig Dyffryn Clun.

Amlinellodd fod yr awdurdod wedi derbyn grant Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy gan Lywodraeth Cymru ar gyfer adfywio'r Parc Gwledig. Ychwanegodd ei fod ef a Swyddog AoHNE Gŵyr wedi cyfarfod â Cadw, ac wedi trafod adfer, sefydlogi, gwelliannau i Dŵr Iorwg, Gorsaf Cilâ yn ogystal â gwelliannau mynediad. Byddai rhai cyfleoedd ariannu ar gael hefyd gan Cadw.

Ar ben hynny, roedd y Tîm AoHNE wedi cael y gwaith o gydlynu gweithgareddau'r cyngor o fewn y Parc Gwledig yn y dyfodol.

**Penderfynwyd** cyflwyno adroddiad yn y cyfarfod nesaf a drefnir.

**57 Parcio yng Nghefn Bryn.**

Darparodd Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr adroddiad diweddaru cynnydd ar lafar. Dywedodd y gellid cwblhau'r prosiect, y dyfarnwyd arian grant Tiroedd Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru iddo, yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, yn amodol ar gytundeb.

Ychwanegodd mai'r cam nesaf fyddai amlinellu'r cynigion gyda Phriffyrdd a Chominwyr Gŵyr er mwyn cytuno ar ateb dylunio gwell.

**Penderfynwyd** cyflwyno adroddiad diweddaru yn y cyfarfod nesaf a drefnir.

**58 Cyflymder Traffig ar Benrhyn Gwyr.**

Gofynnodd yr Is-gadeirydd am yr wybodaeth ddiweddaraf am draffig sy'n gyrru'n rhy gyflym ar benrhyn Gŵyr.

**Penderfynwyd** cyflwyno adroddiad yn y cyfarfod nesaf a drefnir.

**59 Cyfarfod y Parc Cenedlaethol ac AoHNE.**

Dywedodd Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr ei fod wedi cael gwahoddiad, gan Weinidog Llywodraeth Cymru i gyfarfod â'r holl Barciau Cenedlaethol ac AoHNE ddiwedd mis

Medi 2020. Byddai'r cyfarfod yn trafod yr hyn sydd wedi digwydd yn ystod y pandemig, yr effaith ar gymunedau, y gwersi a ddysgwyd ac atebion cynaliadwy.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.58 pm

**Cadeirydd**